Anni Llŷn

Cynllun Gwers

# GWEITHGAREDD MAP!


**1 – Dewisiwch destun!**

Cerdd am beth ydych chi eisiau ysgrifennu?

Heddiw, fy nhestun i yw 'Ar Goll'.

**2 – Casglu geiriau!**


Cymrwch bapur plaen A3 a'i lenwi gyda phob math o eiriau sy'n dod i'r meddwl pan dach chi'n meddwl am y testun (gweler isod).




'Rwy'n dewis gair ar gyfer dechrau'r gerdd. Rwy'n dilyn y llwybrau sy'n arwain o'r gair yma i feddwl am fy nghwpled cyntaf.'

3 – Mapio!


- Gan ddechrau gyda beiro goch tynnwch linell fel llwybr rhwng y geiriau sy'n **ODLI**!




- Yna, gyda beiro las, tynnwch linell fel llwybr rhwng y geiriau sy'n **CYFLYTHRENNU**!




- Yn olaf, gyda beiro werdd, cysylltwch rhai o'r geiriau gyda'r'r **ANSODDEIRIAU**.



### 4 – Ychwanegu at y map!

Edrychwch dros y geiriau sydd ar y papur eto ac ystyried os oes mwy o eiriau/syniadau sy'n cysylltu ac ambell un ohonynt. Gallwch greu llwybrau gyda lliw arall i gysylltu rhain.




### 5 – Dilyn y map!

Nawr, rwy'n dewis gair ar gyfer dechrau'r gerdd. Rwy'n dilyn y llwybrau sy'n arwain o'r gair yma i feddwl am fy nghwpled cyntaf. Yna dilyn y llwybrau i greu cerdd!

Mae dilyn y map yn gallu bod o gymorth mawr wrth geisio creu darluniau a meddwl am sŵn y geiriau! OND...

Peidiwch ac ofni camu oddi ar y llwybr a mynd ar goll o dro i dro!

# PENNILL PUMP – TEIMLO!

5 llinell sydd i'r gerdd fach yma.

**Llinell 1** – Dewisiwch deimlad, a rhowch enw'r teimlad neu unrhyw air sy'n cyfleu'r teimlad i lawr ar ei ben ei hun.

Blinedig

**Llinell 2** – Meddyliwch am liw. Pa liw yw'r teimlad yma? Byddwch yn fanwl. Lliw fel beth yn union?

Porffor fel y môr pan mae'n nosi

**Llinell 3** – Caewch eich llygaid eto a meddwl am y teimlad a cheisio meddwl pa sŵn fydda'r teimlad yma. Fel beth mae'n swnio?

Mae'n swnio fel peiriant sychu dillad yn troelli'n y pellter.

**Llinell 4** – Pryd ydych chi'n teimlo fel hyn? Meddyliwch am y tro diwethaf i chi deimlo fel hyn a cheisiwch gofio pam.

Rwy'n teimlo fel hyn yn y bore ar ôl mynd i fy ngwely'n hwyr.

**Llinell 5** – Ailadrodd! Ailadrodd y gair cyntaf ar ddiwedd eich cerdd.

Blinedig

Felly, dyma fy ngherdd...

Blinedig.
Porffor fel y môr pan mae hi'n nosi.
Mae'n swnio fel peiriant sychu dillad yn troelli'n y pellter.
Rwy'n teimlo fel hyn yn y bore ar ôl mynd i fy ngwely'n hwyr.
Blinedig.

Nawr, ysgrifennwch y gerdd eto gan chwarae gyda'r hyn sydd gennych chi. Ceisiwch gael gwared ar ambell air nad oes ei angen.

Blinedig.
Lliwiau'r môr pan mae'n nosi
a sŵn peiriant sychu.
Mae'n fore wedi noson hwyr.
Blinedig.

Sylwch sut yr ydw i wedi gallu creu yr un darlun gyda llai o eiriau.

Wedi i chi gael tro'n ysgrifennu'r bennill yma ar eich pen eich hun. Beth am ysgrifennu pennill arall am deimlad arall. Ond y tro hwn, dylai pawb yn eich grŵp/dosbarth ddewis yr un teimlad. Dilynwch y patrwm eto ac ysgrifennu ar eich pen eich hun.

Yna dod at eich gilydd eto i gymharu sut mae pob un o honoch chi wedi dehongli'r teimlad penodol. Dwi'n siwr y gwelwch chi fod pawb yn wahanol. Er ein bod i gyd yn cael yr un teimladau, mae nhw'n teimlo'n wahanol i bawb.

Dyna sy'n ein gwneud ni'n unigryw!